# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Mercher, 23 Ionawr 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, K.V. Broom, I.W. Davies, K.Davies, R.E. Evans, W.T. Evans, G.R. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, E. Morgan, E.M.J.G. Schiavone, G. Thomas and D.T. Williams

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
C. Harrison, Pennaeth Comisiynu Strategol ar y Cyd
M. Palfreman, Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
A. Thomas, Gyfrifydd Grwp
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Chamber & Ante Room, - 3, Spilman Street, Carmarthen. SA31 1LE. - 10.00 - 11.55 am**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd L. Roberts.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd K. Lloyd | Cofnod Rhif 4 - Diweddariad ynghylch Gweithio Rhanbarthol a Gweithio mewn Partneriaeth. | Mae ei nith yn gweithio yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol - gofal seibiant. |

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

## 3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 4. BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL - DIWEDDARIAD .

[Noder: Roedd y Cynghorydd K. Lloyd wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach.]

Cafodd y Pwyllgor adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am waith Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r datblygiadau cenedlaethol cysylltiedig gan gynnwys Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol'.

Yn ogystal â'r adroddiad, rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor nad oedd adborth wedi dod i law hyd yn hyn gan Lywodraeth Cymru o ran cais am gyllid o'r Gronfa Drawsnewid Genedlaethol a sefydlwyd er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni 'Cymru Iachach'. Disgwylir i hynny ddod i law yn y man. Os byddai'n llwyddiannus, byddai cyfyngiad amser ar y cyllid, a byddai dod â'r mentrau i'r prif ffrwd ac arallgyfeirio'r adnoddau ar ôl i gyfnod y cyllid ddod i ben yn her allweddol.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Gofynnwyd at ba gyfnod yr oedd y 'Gweithgareddau dros y 6 mis diwethaf' yn yr adroddiad yn cyfeirio.

  Dywedwyd bod y 6 mis yn grynodeb o'r gweithgareddau a wnaed ar ddechrau'r flwyddyn ariannol.

- Yn dilyn datganiad a wnaed gan y Comisiynydd a gododd bryderon ynghylch ansawdd y gwasanaeth eiriolaeth yng Nghymru, gofynnwyd beth oedd rôl y Bartneriaeth o ran datblygu'r gwasanaeth a rennir.

  Dywedwyd bod hwn yn faes blaenoriaeth allweddol i'r Bartneriaeth ac y byddai datganiad sefyllfa'n cael ei gyhoeddi cyn hir mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd. Ar ôl cael ei gyhoeddi byddai'r datganiad yn cael ei ddosbarthu i'r Pwyllgor. Mae Ceredigion yn arwain o ran y broses gaffael ac mae'r Bartneriaeth wedi bod yn gweithio ar y model gwasanaeth ar y cyd â darparwyr y gwasanaeth ers dros 18 mis. Disgwylir i'r broses gaffael ddod i ben ym mis Medi 2019.

- Gofynnwyd pa ddull fyddai ar waith er mwyn monitro perfformiad darparwyr y gwasanaeth eiriolaeth.

  Dywedwyd bod fframwaith perfformiad yn cael ei lunio ar y cyd a fyddai'n mesur perfformiad. Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud gyda'r darparwyr a'r gofalwyr ynghylch ymddangosiad y gwasanaeth. Yn ogystal, byddai data ansoddol a data meintiol yn cael eu casglu a'u dadansoddi er mwyn sicrhau bod darparwyr y gwasanaeth yn darparu'r gwasanaeth yn unol â'r contract.

- Gofynnwyd pa waith sydd wedi'i wneud o ran unedau byw â chymorth ar gyfer pobl ag anableddau dysgu a phroblemau iechyd meddwl.

  Dywedwyd bod cais yn cael ei gyflwyno am gyllid cyfalaf drwy'r Gronfa Gofal Integredig er mwyn gwella'r ddarpariaeth ledled y rhanbarth. Byddai'r cynigion yn cael eu llywio ar sail y ddarpariaeth bresennol a'r dyhead strategol ar gyfer llety byw â chymorth gwell er mwyn hyrwyddo annibyniaeth a gwella canlyniadau. Mae asesiad cynhwysfawr o anghenion wedi'i gynnal ar ran y Bartneriaeth, gan ystyried y gofynion deddfwriaethol a'r ddemograffeg. Byddai cyllid cyfalaf yn galluogi buddsoddi mewn unedau presennol yn ogystal â datblygu unedau newydd. Bydd y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen.
- Cafodd Bwrdd Iechyd Hywel Dda ei feirniadu'n ddiweddar gan yr Archwilydd Cyffredinol yn sgil ei wariant uchel ar staff asiantaeth. Gofynnwyd beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Dywedwyd bod y Bwrdd Iechyd eisoes wedi llwyddo i leihau costau'r staff asiantaeth, ond roedd denu pobl i'r sector yn heriol. Mae strategaeth gweithlu rhanbarthol yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon. Dywedwyd hefyd y byddai'r newid i'r model gwasanaeth yn lleihau'r galw mewn rhai meysydd gwasanaeth.

- Gofynnwyd pa sicrwydd y gellid ei roi o ran 'gofalu am weithlu' gan fod yna drosiant uchel o staff sy'n gweithio i asiantaethau neu gyrff allanol ar hyn o bryd sydd ar yr isafswm cyflog gan amlaf.

  Dywedwyd bod y gwasanaethau comisiynu'n rhoi'r sicrwydd gan y nodir isafswm o'r cyflog byw yn fframwaith y gwasanaeth a byddai hyn yn cael ei fonitro. Mae dull ar waith er mwyn monitro cwynion, proffil y gweithlu ac arolygon staff. Dywedwyd bod y Bartneriaeth yn comisiynu Fforwm Arloesi ar hyn o bryd, sy'n cynnwys sefydliadau statudol, annibynnol a gwirfoddol. Byddai'r fforwm ar waith ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a byddai'n trafod materion sy'n ymwneud â'r gweithlu. Byddai gweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth hefyd yn cael eu cynrychioli yn y fforwm.

- Dywedwyd bod angen sicrhau bod tai priodol ar gael i ddenu pobl sengl yn ogystal â theuluoedd i weithio yn y sir. Gellid gwneud hyn drwy gael y Bartneriaeth i weithio gyda datblygwyr ac Adran Gynllunio'r Awdurdod.

  Dywedwyd bod y Bartneriaeth yn ymwybodol bod hyn yn her a byddai'n penodi cynrychiolydd tai ar y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn unol â gofynion y rheoliadau diwygiedig.

- Gofynnwyd cwestiwn ynghylch sut y mae'r Bartneriaeth yn monitro ansawdd a darpariaeth y gofal a ddarperir gan Wasanaeth Cartref ac Ysbyty'r Groes Goch Brydeinig.

  Dywedwyd bod monitro'n cael ei wneud mewn modd tebyg i ofal cartref. Mae dull cydlynol ynghyd â fframwaith sicrhau ansawdd y cytunwyd arno, a phrotocol ar gyfer uwchgyfeirio pryderon.

- Codwyd pryderon gan nad oedd canlyniadau rhyddhau o'r ysbyty fel y dylent fod bob amser. Nid oes pecynnau gofal ar waith bob amser cyn rhyddhau.

  Rhoddwyd gwybod bod y ffigurau yn yr adroddiad yn dangos effaith gadarnhaol ond nad oedd y broblem wedi'i datrys eto. Nod y model gofal rhagweithiol yw atal derbyniadau ac arosiadau hirdymor yn yr ysbyty. Bydd fframwaith canlyniadau cyffredinol yn cael ei ddatblygu er mwyn galluogi effaith y gwaith buddsoddi a thrawsnewid ledled y rhanbarth mewn perthynas â materion o'r fath.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol am gyflwyno adroddiad eglur a llawn gwybodaeth i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

**4.1 bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.**

**4.2 bod y Pwyllgor yn argymell bod yr Adran Gynllunio'n cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i ystyried gofynion tai staff y Bwrdd Iechyd yn y CDLI.**
**4.3 bod y Groes Goch yn cael ei wahodd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y gwaith y mae'n ei wneud drwy'r Gwasanaeth Cartref a'r Ysbyty.**
**4.4 bod Julia Wilkinson, Rheolwr yr Ardal Leol, yn cael ei gwahodd i gyflwyno 'Mae Sir Gaerfyrddin yn Garedig' i'r Pwyllgor.**

## 5. ADRODDIAD MONITRO CYLLIDEB CYFALAF A REFENIW 2018/19.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 31 Hydref 2018, mewn perthynas â blwyddyn ariannol 2018/19.

Rhagwelid y byddai'r Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn gorwario £889k o ran y Gyllideb Refeniw ac y byddai yna +£2 o amrywiant net yn erbyn y Gyllideb Gyfalaf oedd wedi'i chymeradwyo ar gyfer 2018/19. Bydd yr amrywiant yn cael ei gynnwys yng nghyllidebau'r blynyddoedd sydd i ddod.

Codwyd y cwestiynau/sylwadau canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Codwyd pryderon ynghylch yr amrywiant o -£140k y manylir arno yn Atodiad B - Pobl Hŷn - Gofal Cartref yr ALI. Mae'r atodiad yn nodi bod yr arbedion yn sgil swyddi gwag a chodwyd pryderon ynghylch y pwysau y mae hynny'n ei roi ar y staff presennol.

  Dywedwyd bod hyn wedi digwydd oherwydd oedi ac effaith y cyllid grantiau ar recriwtio. Mae recriwtio'n cael ei wneud ar gyfer gofal cartref mewnol. Fodd bynnag, mae recriwtio staff arbenigol yn broblem ond dylai'r cynllun datblygu'r gweithlu fynd i'r afael â hyn.

- Gofynnwyd pam mae amrywiant a ragwelir o £889k yn Atodiad C ar gyfer mis Hydref 2018 er mai'r ffigwr hwn oedd £746 ar gyfer mis Awst 2018.

  Dywedwyd bod hyn oherwydd nad yw 'hysbysiadau yn ystod y flwyddyn' o gyllid wedi'u cynnwys yn y ffigurau eto.

- Gofynnwyd pa system sydd ar waith i wneud llwybr gyrfa ym maes iechyd yn fwy deniadol i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol.

  Dywedwyd mai un o amcanion cynllun datblygu'r gweithlu yw gwneud y sector yn fwy deniadol i bobl ifanc sy'n gadael yr ysgol. Awgrymwyd y byddai Rebecca Jones yn gallu adrodd wrth y Pwyllgor am y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Bartneriaeth.

- Gofynnwyd beth oedd wedi achosi'r amrywiant rhwng y symiau a ragwelwyd ar gyfer mis Hydref 2018 o £120k a £21k ar gyfer mis Awst 2018 ym maes Iechyd Meddwl - Tai Grŵp/Llety Byw â Chymorth (Atodiad B).

Dywedwyd bod hyn wedi digwydd oherwydd amrywiadau o ran anghenion y grŵp cleientiaid sy'n anodd eu rhagweld. Un maes sydd wedi cyfrannu at hyn yw byw â chymorth. Cytunodd Cyfrifydd y Grŵp i drafod y mater hwn â Phennaeth y Gwasanaeth a fyddai'n dwyn y pryderon at sylw'r Pwyllgor.

- Gofynnwyd am y swyddi gwag parhaus (Atodiad D) yn y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a sut yr ymdrinnir â hyn. Dywedwyd bod angen dull mwy syml ar y gwasanaeth. Er enghraifft, os yw claf yn yr ysbyty am 2 wythnos neu fwy bydd y pecyn therapi galwedigaethol yn cael ei golli a bydd angen gwneud cais amdano eto. Gofynnwyd bod Pennaeth y Gwasanaeth yn annerch y Pwyllgor ynghylch y mater hwn.

  Cydnabuwyd bod problemau o hyd ond roedd gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â hwy. Cytunodd Cyfrifydd y Grŵp i drafod y mater hwn â Phennaeth y Gwasanaeth a fyddai'n sôn am y pryderon yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.

- Codwyd pryderon bod Blas Myrddin wedi cau yn enwedig gan fod y cyfleuster yn cael ei ddefnyddio fel lleoliad ar gyfer pobl ag anableddau dysgu. Ar ôl hynny roedd gwasanaethau arlwyo wedi dod i ben ar safleoedd Cartref Cynnes a Thŷ Dyffryn. Dywedodd y Cadeirydd y dylai'r Pwyllgor fod wedi cael manylion ynghylch hyn cyn i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi yn y wasg.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 6. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried rhestr o'r eitemau sydd i ddod a chytunwyd y dylid cyflwyno'r eitemau yn y cyfarfod nesaf.

## 7. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 17EG RHAGFYR, 2018

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2018 gan eu bod yn gywir.**

________________________ ________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**